*Mae'r Offeryn Statudol hwn wedi ei wneud o ganlyniad i ddiffyg yn O.S. 2013/1747 (Cy.173) na chafodd ei argraffu.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 1982 (Cy. 192)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Sir y Fflint) (Rhif 2) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *6 Awst 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *8 Awst 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Hydref 2013* |

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan baragraff 8(1) o Atodlen 8 a pharagraff 3(1) o Atodlen 10 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**).

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru i Orchymyn gael ei wneud o dan y pwerau hyn mewn cysylltiad â rhan o'i ardal.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â phrif swyddog Heddlu Gogledd Cymru yn unol â gofynion paragraff 8(3) o Atodlen 8 a pharagraff 3(4) o Atodlen 10 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004.

Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Sir y Fflint) (Rhif 2) 2013.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Hydref 2013 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

### Dynodi ardal gorfodi sifil ac ardal gorfodi arbennig

**2.** Mae Gweinidogion Cymru yn dynodi'r ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen yn—

(a) ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio; a

(**1**) 2004 p.18.

(**2**) Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Yn rhinwedd adran 92 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004, dynodwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awdurdod cenedlaethol priodol o ran Cymru, at ddibenion Rhan 6 o'r Ddeddf honno.

(b) ardal gorfodi arbennig.

**Dirymu**

**3.** Mae Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Sir y Fflint) 2013(**3**) drwy hyn wedi ei ddirymu.

*Edwina Hart*
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

6 Awst 2013

(**3**) O.S. 2013/1747 (Cy.173).

## YR ATODLEN

Erthygl 2

**Ardal a ddynodir yn ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio ac yn ardal gorfodi arbennig**

Sir y Fflint yn gyfan ac eithrio—

(a) yr A55 i gyd, gan gynnwys ei ffyrdd ymuno ac ymadael, o fewn y sir;

(b) y darnau hynny o'r A550 o Gyfnewidfa Parc Glannau Dyfrdwy yr A548 i'r ffin sirol â Swydd Gaer;

(c) y darn hwnnw o ffordd ddeuol yr A494, gan gynnwys ei ffyrdd ymuno ac ymadael, o'r ffin sirol â Swydd Gaer i gyffordd yr A55 yng Nghyfnewidfa Ewloe.

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi'r ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen yn ardal gorfodi sifil ac yn ardal gorfodi arbennig at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004. Effaith ymarferol y Gorchymyn yw galluogi Cyngor Sir y Fflint i orfodi'r gyfraith ar dramgwyddau parcio o fewn yr ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn drwy gyfundrefn cyfraith sifil, mewn cyferbyniad â gorfodi'r gyfraith gan yr heddlu neu wardeiniaid traffig yng nghyd-destun cyfraith trosedd.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn disodli O.S. 2013/1747 (Cy.173) o ganlyniad i ddiffyg yn y Gorchymyn hwnnw.

Gellir cael Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a Memorandwm Esboniadol oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Swyddfeydd y Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm